

**Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Tref Porthmadog a gynhaliwyd
ar Nos Fawrth, 11eg o Chwefror 2020, 7:00yh yn Ystafell Glaslyn,
Y Ganolfan, Porthmadog.**

Presennol: Cynghorwyr: Simon Brooks, Melfyn Edwards, Aled Griffith, Selwyn Griffiths, Carol Hayes, Jason Humphreys, Nia Jeffreys, Ian Jones, Richard Williams, Glenda Burke (Clerc).

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr : Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones, Dafydd Lake, Llywelyn Rhys, Bethan O. Rees Jones, Gareth Williams.

208. Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gofynnodd y Clerc am enwebu cynghorydd i gadeirio'r cyfarfod. Enwebwyd y Cyng. Selwyn Griffiths gan y Cyng. Richard Williams gyda'r Cyng. Nia Jeffreys yn eilio.

Adroddiad y Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at Storm Caira oedd wedi effeithio rhannau helaeth o'r wlad. Roedd lefydd wedi eu heffeithio lot gwaeth na Porthmadog e.e. Llanrwst. Roedd wal atal llifogydd Borth Y Gest wedi gwneud ei waith. Roedd rhai o'r twyni ar draeth y Greigddu wedi eu chwalu. Ar y cyfan roedd yr ardal yma wedi bod yn lwcus iawn.

Roedd trenau o Blaenau i Landudno ddim am fod yn rhedeg am sbel ond gobeithir y bydd trenau Cambrian yn rhedeg yn ôl wythnos nesaf.

Dymunai'r Cadeirydd gydymdeimlo efo'r Cyng. Dafydd Lake sydd wedi colli ei nain. Yn yr un modd dymunai gydymdeimlo gyda'r Cyng. Bethan O Rees Jones a'r Cyng. Llywelyn Rhys yn dilyn marwolaeth Bryan Rees Jones. Rodd Bryan wedi bod yn Gadeirydd y Cyngor Tref a Chyngor Dosbarth Dwyfor. Roedd ei gyfraniad i'r dref yn helaeth gan gynnwys sefydlu'r Ganolfan , sicrhau perchnogaeth yr harbwr, brwydro efo Lord Fermoy i brynu'r Cob ac yn dilyn ei werthu , sefydlu Rebecca sydd yn parhau i elwa cymdeithasau lleol. Roedd yn wr bonheddig ac yn arbennig yn ei ddawn o gadeirio cyfarfodydd. Diolch amdano ac am ei wasanaeth i'r dref. Fel arwydd o gydymdeimlad gofynnwyd i bawb sefyll am funud.

209. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod rheolaidd diwethaf (14eg o Ionawr 2020). Tudalen 39, 4ydd paragraff . Ychwanegu 'Roedd y Cyng. Jason Humphreys wedi nodi fod y Pensaer wedi cytuno bod dylai'r corff fydd i redeg y parc yn un corfforedig'.

Penderfynwyd : gyda'r cywirdeb derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd yn unol â gofynion y gyfraith.

Cynnig : Cyng. Richard Williams. Eilio : Cyng. Melfyn Edwards.

210. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod arbennig is-bwyllgor efo'r Urdd parthed Clybiau Ieuencid (27ain o Ionawr 2020).

Penderfynwyd : derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd yn unol â gofynion y gyfraith. Cynnig : Cyng. Simon Brooks. Eilio : Cyng. Jason Humphreys.

211. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod Pwyllgor Eiddo (28ain o Ionawr 2020).

Penderfynwyd : derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd yn unol â gofynion y gyfraith. Cynnig : Cyng. Aled Griffith. Eilio : Cyng. Ian Jones.

212. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod Pwyllgor Eiddo ac Amcanion Cyffredinol (28ain o Ionawr 2020)

Penderfynwyd : derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd yn unol â gofynion y gyfraith. Cynnig : Cyng. Nia Jeffreys. Eilio : Cyng. Aled Griffith.

213. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb ar y cyfarfod rheolaidd.

Cyng. Simon Brooks – gohebiaeth rhif 2 – Clwb Hwyllo Madog.

Cyng. Carol Hayes – gohebiaeth rhif 8 Y Ganolfan.

Materion i'w dwyn gerbron :

214. Cyng. Gareth Williams – problemau trafndiaeth yng Nghlog y Berth.

Penderfynwyd: yn absenoldeb y Cyng. Williams gadael y mater ar raglen mis Mawrth.

215. Cyng. Aled Griffith - cynnig ysgrifennu at Caelloi Motors i ddatgan siom ar amharchu stryd fawr Porthmadog efo posteri ar bolion. Roedd y Cyng. Griffith wedi sylwi posteri hysbysebu wedi eu gosod ar tua 7 o bolion efo selotep ar y Stryd Fawr. Maent yn gadael llanast ar eu holau. Roedd am eu gweld yn clirio'r posteri. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Jason Humphreys a derbyniwyd yr ychwanegiad i ysgrifennu at Peter Simpson o Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

216. Cyng. Richard Williams - cynnig ysgrifennu at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt wneud arolwg o balmentydd yr ardal o ran mynediad i'r anabl. Ychwanegodd y Cyng. Williams fod hyn wedi codi o gŵyn gan un o drigolion East Avenue oedd wedi adrodd problemau efo mynd i fyny'r palmant at ei dy gyda'i sgwter anabled. Roedd y Cynghorydd Sir wedi delio efo'r mater ond roedd wedi sylwi fod gwaith ar y stryd fawr wedi ei gwblhau er mwyn hwyluso mynedfa i bobl anabl neu rieni efo coets ond fod llawer o strydoedd cefn angen sylw. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ian Jones.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

217. Cyng. Carol Hayes/ Cyng. Alwyn Gruffydd - adroddiad o Bwyllgor Un Llais Cymru Ardal Dwyfor.

Adroddodd y Cyng. Hayes am rai o'r prif bethau oedd wedi dod allan o gyfarfod diweddar o'r Pwyllgor hwn.

Bydd yn rhaid i gynghorau tref a chymuned gael gwefan efo gwybodaeth benodol arnynt yn y dyfodol agos. Roedd gwefan Porthmadog wedi ei chrybwyll fel esiampl dda i gynghorau eu dilyn.

Maent yn ystyried newid y rheol na ellir cyfarfod mewn eiddo trwyddedig.

Maent yn ystyried newid tymor etholiadol o 4 i 5 mlynedd.

Bydd newid yn caniatáu pobl sydd yn gweithio i'r Cyngor i sefyll am swydd etholedig heb ymddiswyddo. Ni fydd yn rhaid ymddiswyddo wrth sefyll dim ond os yn llwyddiannus.

Bydd yn rhaid i gynghorau gyflwyno adroddiad o'u gwaith yn flynyddol. Gall fod ar ffurf electroneg.

Bydd yn rhaid hyfforddi aelodau ar y Côd Ymddygiad.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth efo diolch.

218. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

(Dyddiad cau Rhaglen mis Mawrth 2020 – 3ydd o Fawrth 2020).

219. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth a pharhau i bwysu am ateb fel bo angen.

Gohebiaeth :

220. Pennaeth Priffyrdd, CG – Rhaglen Waith mis Chwefror 2020 – er gwybodaeth.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

221. Swyddog Morwrol , CG – Clwb Hwyllo Madog, Harbwr Porthmadog, (ymateb i lythyr rhaglen mis Tachwedd 2019, cof 133).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

222. Prif Weithredwr , CG – tai haf yn cofrestru fel busnesau i osgoi trethi,(ymateb i lythyr rhaglen Tachwedd 2019, cof.138).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

223. Swyddog Gweithredol, CG – diweddariad am system TCC Porthmadog,(ymateb i lythyr rhaglen Hydref 2019,cof. 125).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

224. Adran Seilwaith yr Economi, Llywodraeth Cymru - Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, Adran 247. Gorchymyn cau priffyrdd (Britannia Terrace, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AB). (Cynllun ar y bwrdd).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

225. Rheolwr Uned Trafnidiaeth, CG - Lloches Bws Tesco Porthmadog (ymateb i lythyr rhaglen mis Tachwedd 2019, cof. 156). Nododd y Cyng. Carol Hayes fod dros dair wythnos wedi mynd heibio ers dyddiad yr e-bost yma a dylai'r gwaith fod wedi ei wneud erbyn hyn. Roedd yn cynnig ysgrifennu yn ôl i ofyn am ddiweddariad a phryd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Nia Jeffreys.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

226. Cynghorau tref a chymuned yr ardal – gwasanaeth bysiau i Ysbyty Alltwen, (ymateb i lythyrau rhaglen mis Ionawr 2020, cof. 177).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

227. Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan - Cofrestr Ymddiriedolwyr , (ymateb i lythyr rhaglen mis Ionawr 2020, cof.203).

Penderfynwyd : trafod y llythyr yr un pryd a'r cais ariannol yn ôl cynnig y Cyng. Jason Humphreys , eiliwyd gan y Cyng. Aled Griffith.

228. Grŵp Yes Cymru, Porthmadog a'r Ardal – cais i roi baneri ar Gylchfan Bodawen. Roedd y Cyng. Nia Jeffreys yn cynnig ysgrifennu yn croesawu sefydlu'r grŵp a chefnogi gosod un baner os gallent ei ddarparu'r erbyn Ddydd Gŵyl Dewi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Melfyn Edwards.

Nododd y Cyng. Jason Humphreys ei fod yn bryderus am dynnu fflag Dewi Sant i lawr dros Ddydd Gŵyl Dewi ac nad oes hawl gan y Cyngor Tref i dynnu'r 3 fflag benodol i lawr a rhoi rhai politicaidd yn eu lle. Bu lot o drafod ar y mater yma cyn penderfynu ar fflagiau Dewi Sant, Cymru ac un wedi ei ddylunio yn arbennig i gofio campwaith Mr Maddocks. Roedd yn cytuno efo amcan y grŵp.

Teimlai'r Cyng. Aled Griffith y gallai hyn agor y drws i grwpiau eraill ofyn am gael rhoi eu fflagiau i fyny ac eiliodd gynnig y Cyng. Humphreys.

Nododd y Cyng. Richard Williams fod y sefyllfa yn glir gan fod trefn wedi ei sefydlu o ran y pa fflagiau sydd yna.

Nododd y Cyng. Simon Brooks ei bryder y gallai caniatáu hyn osod cynsail ond roedd hefyd yn ymwybodol iawn fod y Cyngor Tref wedi datgan eu cefnogaeth i ymgyrch Yes Cymru. Roedd ganddo bryder ieithyddol am y defnydd o 'Yes' Cymru. Aethpwyd i bleidlais . 2 o blaid, 4 yn erbyn a 2 yn atal pleidlais.

Penderfynwyd : ymateb yn ôl y bleidlais i wrthod y cais.

229. Mabon ap Gwynfor - diweddariad ar yr ymgyrch i sefydlu Canolfan Ddiagnostig Canser yng Ngwynedd. **Penderfynwyd** : Derbyn y wybodaeth.

230. Gwasanaethau Democratic, CG - Cynhadledd gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian 20.3.2020 – cyfle i gyflwyno materion i’w trafod.

Penderfynwyd : gofyn y cwestiynau canlynol :

Cyng. Carol Hayes – Pa bryd mae nhw am gael gwasanaeth Cymraeg ar y trenau?

Cyng. Melfyn Edwards - Beth maent am wneud i sicrhau fod y lein yn hyfyw i’r dyfodol gan nodi diffyg dwyieithrwydd y staff ar y trenau?

231. Un Llais Cymru – adroddiad o Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr –Rhagfyr 2019. **Penderfynwyd** : Derbyn y wybodaeth.

232. Gwasanaeth Cyfreithiol, CG - Gorchymyn cau croesfan wastad Stryd Fawr, Porthmadog 15.2.2020 – er gwybodaeth. **Penderfynwyd** : Derbyn y wybodaeth.

233. Cyngor Iechyd Cymuned - Datganiad i’r Wasg (adroddiad llawn ar y bwrdd).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

234. Llywodraeth Cymru – diwygiad arfaethedig i orchymyn draenio cynaliadwy.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

235. Dewi Bowen, Pennaeth Ysgol Eifionydd - tir Model Dairy (ymateb i lythyr rhaglen mis Ionawr, cof.202). Croesawodd y Cyng. Jason Humphreys yr ymateb positif yma. Cynigiodd y dylid danfon copi o’r llythyr at sylw deilydd portffolio trafniadaeth Catrin Wager gan ei chyfeirio at sylwadau Dafydd Meurig yn y Cambrian News yn 2017. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Melfyn Edwards. **Penderfynwyd** : gweithredu yn ôl y cynnig.

236. Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr – tir Model Dairy (ymateb i lythyr rhaglen mis Ionawr, cof. 202). **Penderfynwyd** : Derbyn y wybodaeth.

237. Swyddog Trwyddedu, CG – cais am drwydded 27 Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9LR.

Penderfynwyd : dim gwrthwynebu yn ôl cynnig y Cyng. Simon Brooks , eiliwyd gan y Cyng. Carol Hayes.

238. Bob Griffiths, Warden Cefn Gwlad, CG gwaith diogelwch coed nyrseri (ymateb i lythyr rhaglen mis Ionawr, cof.193).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

239. Materion Ariannol :

Biliau i’w talu :

Glenda Burke – cyflog Clerc mis Ionawr 2020	=	£599.00
Cyllid a Thollau EM – treth incwm ac yswiriant gwladol Ionawr 2020	=	£155.00
Glenda Burke - inc ar gyfer y printer Rhagfyr (£10.49) ac Ionawr (£14.49), cardiau cydymdeimlo (£12.00), 24 stamp ail ddsbarth (£14.64) , hanner rent llinell ffôn a we 26.1.2020- 25.2.2020 (£32.25)	=	£83.87
Cyfrifiaduron Porthmadog - ‘external hard drive’ i warchod data	=	£59.99

Derbyniadau:

Llog Banc Ionawr 2020	=	£ 5.76
Cyngor Gwynedd – ad daliad tuag at gostau cynnal llwybrau	=	£1,064.50

Penderfynwyd : talu'r biliau a nodi'r derbyniadau yn ôl cynnig y Cyng. Melfyn Edwards, eiliwyd gan y Cyng. Aled Griffith.

240. Lwfans Blynyddol Cynghorwyr

Ffurflenni i'w llenwi er mwyn creu record HMRC a thynnu treth o'r lwfans.

Angen eu dychwelyd i'r Clerc 29.2.2020 er mwyn cael taliad mis Mawrth allan o gyllideb 2019/2020. Adroddodd y Clerc fod peidio tynnu treth yn ddiffyg yr oedd yr Archwiliwr Mewnol ac Allanol wedi ei nodi wrth archwilio cyfrifon 2018/2019. Nododd hefyd ei bod wedi cadarnhau efo Un Llais Cymru na ellir talu'r lwfans yn uniongyrchol i unrhyw elusen. Bydd y lwfans yn cael ei dalu i'r cynghorwyr ar ôl tynnu treth ac mae fyny i unigolion beth maent yn wneud wedyn efo'r arian. **Penderfynwyd** : derbyn yr wybodaeth.

241. Ceisiadau Cynllunio :

- i) **C19/1210/44/DT** - Cais ar gyfer dymchwel estyniadau cefn presennol a darparu balconi uwchben estyniad to fflat presennol.
Velog, 15 Stryd Ralph, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UA.
Penderfynwyd : dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig y Cyng. Simon Brooks, eiliwyd gan y Cyng. Ian Jones.
- ii) **C20/0053/44/DT** - Cais ar gyfer darparu to pits yn lle to fflat ar estyniad cefn presennol ynghyd a thynnu simne.
13 Heol Merswy, Borth y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UB.
Penderfynwyd : dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig y Cyng. Simon Brooks, eiliwyd gan y Cyng. Aled Griffith.

242. Ceisiadau Ariannol 2019/2020.**Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb ar y ceisiadau ariannol.**

Cyng. Simon Brooks - cais am gyfraniad Clwb Pêl Droed Porthmadog.

Cyng. Simon Brooks – cais am gyfraniad Yr Wylan.

Cyng. Richard Williams – cais am gyfraniad Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb.

Cyng. Aled Griffith – cais am gyfraniad Tremadog 200.

Cyng. Carol Hayes – cais am gyfraniad Y Ganolfan.

Cyng. Carol Hayes – cais am gyfraniad Yr Wylan.

Cyng. Nia Jeffreys – cais am gyfraniad Ysgol Eifionydd.

Cyng. Nia Jeffreys – cais am gyfraniad Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2021.

Cyng. Nia Jeffreys – cais am gyfraniad Yr Wylan.

Cyng. Selwyn Griffiths - cais am gyfraniad Ysgol Eifionydd.

ENW'R ELUSEN/ CYMDEITHAS/ CLWB	CYFRANIAD 2019/2020	CYNNIG/ EILIO
Cyfraniadau A137		
1. Clwb Snwcer Tremadog	£100	Cyng. Melfyn Edwards Cyng. Nia Jeffreys
2. Ysgol Eifionydd	£250	Cyng. Simon Brooks Cyng. Carol Hayes

3. Apêl Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2021	£5,000	Cyng. Richard Williams Cyng. Melfyn Edwards
4. Yr Wylan	£250	Cyng. Aled Griffith Cyng. Ian Jones
5. Cyfeillion Ysgol y Gorlan	£200	Cyng. Richard Williams Cyng. Nia Jeffreys
6. Gŵyl Gelf Calon Gwynedd	£250	Cyng. Cyng.
7. Bywyd Gwyllt Glaslyn	£100	Cyng. Cyng.
8. Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog	£500	Cyng. Simon Brooks Cyng. Carol Hayes
9. Eisteddfod yr Urdd	£100	Cyng. Simon Brooks Cyng. Jason Humphreys
10. Clwb Chwaraeon Madog	£1,000	Cyng. Jason Humphreys Cyng. Melfyn Edwards
11. Owl Cymru	£0	Cyng. Simon Brooks Cyng. Carol Hayes
12. Tremadog 200	£300	Cyng. Richard Williams Cyng. Carol Hayes
13. Clwb Pêl Droed Porthmadog	£2,500	Cyng. Ian Jones Cyng. Nia Jeffreys
14. Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb	£600	Cyng. Carol Hayes Cyng. Jason Humphreys
15. Theatr Bara Caws	£0	Unfrydol
16. Neuadd Goffa Tremadog	* Gohirio tan fis nesaf.	Cyng. Simon Brooks Cyng. Carol Hayes
Cyfraniadau A145		
Y Ganolfan	**Gohirio tan fis nesaf.	Cyng. Jason Humphreys Cyng. Simon Brooks

* Cytunwyd i ohirio trafod y cais gan nad oedd ffurflen gais na llythyr wedi ei dderbyn dim ond mantolen. Deallwyd fod salwch swyddogion allai fod wedi effeithio ar y broses o wneud cais.

** Gan fod yr amser wedi mynd hwyr a bod gwaith trafod ar y cais hwn penderfynwyd ei roi ar raglen mis nesaf.